

## Tasg 1

# Ni a nhw – wynebu’r gelyn!

1. Darllenwch yr erthygl unwaith eto cyn ateb y cwestiynau canlynol. Efallai y bydd angen i chi chwilio am wybodaeth ar y we er mwyn helpu i ddod o hyd i’r atebion.

<b>Beth rydych chi’n ei wybod am y Gemau Olympaidd? Ysgrifennwch dair ffaith.</b>	1.	
	2.	
	3.	
<b>Beth rydych chi’n ei wybod am Jesse Owens? Ysgrifennwch dair ffaith amdano.</b>	1.	
	2.	
	3.	
<b>Beth rydych chi’n ei wybod am Adolf Hitler? Ysgrifennwch dair ffaith amdano.</b>	1.	
	2.	
	3.	

2. Llenwch y bylchau yn y brawddegau isod trwy ddewis y gair cywir o'r rhestr sydd ar y gwaelod.

Mae'r Gemau Olympaidd yn ddigwyddiad sy'n tynnu ..... y byd at ei gilydd. Mae'r Gemau'n cael ..... bob pedair blynedd mewn ..... newydd bob tro. Cafodd y Gemau Olympaidd modern cyntaf eu cynnal yn ..... yn 1896 ac mae'r symbol Olympaidd yn dangos pump ..... sy'n cynrychioli pump ..... y byd. Arwyddair y Gemau Olympaidd yw Citius, Altius, Fortius, sy'n golygu Yn Gyflymach, ....., Yn Gryfach.

**cylch**

**lleoliad**

**Yn Uwch**

**eu cynnal**

**cyfandir**

**gwledydd**

**Athen**

### 3. Mynegi barn

<b>Disgrifiwch y Gemau Olympaidd mewn tri gair.</b>	1.	
	2.	
	3.	
<b>Pa fath o berson oedd Jesse Owens yn eich barn chi? Ysgrifennwch dri gair i'w ddisgrifio.</b>	1.	
	2.	
	3.	
<b>Pa fath o berson oedd Adolf Hitler yn eich barn chi? Ysgrifennwch dri gair i'w ddisgrifio.</b>	1.	
	2.	
	3.	
<b>Sut rydych chi'n meddwl roedd Adolf Hitler yn teimlo o weld llwyddiant Jesse Owens? Pam?</b>		
<b>Ydych chi'n meddwl bod barn Adolf Hitler yn gywir? Pam?</b>		
<b>Ydych chi'n meddwl bod y Gemau Olympaidd yn dda neu'n ddrwg? Pam?</b>		